

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO
CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS
FAWRTH, 4^{YDD} MAI 2021 AM 6.30 P.M.**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, G. Campbell, Mrs M. Jones
(Dirprwy Faer), R. Owen, J. Pearson, S. Price, S. Ryder, M.
Tasker, M. Worth..

SWYDDOGION: Mrs Tina Earley, Clerc y Dref
Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Aelodau o'r Cyhoedd

357/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

358/20 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

359/20 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 6^{ed} Ebrill 2021 yn adroddiad cywir.

360/20 Materion yn Codi o'r Cofnodion:

a) Cofnod 198/20(a): Diffibriliwr Hen Golwyn:

Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar lafar yn dilyn cyfarfod y bu ynddo gyda'r Cynghorydd Sirol o Hen Golwyn, y Cynghorydd Brian Cossey a chynrychiolydd o Gymdeithas Trigolion Hen Golwyn, Monty Slocombe. Dywedodd y Clerc bod y cyfarfod wedi bod yn un positif iawn. Mae Eglwys Sure Church wedi cytuno i fod yn westeiwr i'r diffibriliwr (ar ôl ei brynu) yn ei hadeilad er cof am y diweddar Gynghorydd Bob Barton am mai ef a ddechreuodd y prosiect ac wedi ei gefnogi gyda'i lwfans ward. Mae dal angen codi mwy o arian i brynu a gosod y diffibriliwr. Bydd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru yn rhoi batris newydd pan fo angen am bum mlynedd. Bydd y Clerc yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

b) Cofnod 229/20(b) Hysbysfyrdau

i) Rhoddodd y Clerc a'r Cynghorydd M. Worth adroddiad ar lafar yn dilyn cyfarfod diweddar gyda chynrychiolwyr o GWIL a phrosiect

DYCHMYGWCH i drafod y posibilrwydd o gynnal prosiect ar y cyd i osod nifer o hysbysfyrddau digidol o gwmpas ardal y cyngor tref, naill ai i gymryd lle'r rhai hen neu ychwanegu at y rhai pren o osodwyd gan y Cyngor Tref. Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi cymeradwyo cyllid dros dro o £20,000 tuag at y prosiect. Y bwriad yw gosod 3 neu 4 o hysbysfyrddau digidol (yn dibynnu ar y gost a'r cyllid fydd ar gael o grantiau / partneriaid) mewn lleoliadau yn Llandrillo yn Rhos, Hen Golwyn a Bae Colwyn. Gofynnodd y Clerc am awgrymiadau am unrhyw leoliadau newydd, neu a fyddai'r aelodau yn hoffi cael hysbysfyrddau digidol i gymryd lle rhai o'r hysbysfyrddau pren presennol. Am fod GWIL yn debyg o wneud cyfraniad (yn amodol ar gymeradwyaeth gan y grŵp preswylwyr) bydd un o leiaf yn cael ei leoli yn Ward Glyn. Fe awgrymwyd byddai'r hysbysfwrdd dwbl ar Ffordd Sea View ger Grisiau'r Orsaf yn lle arbennig i gael un newydd. Awgrymwyd y dylai un cael ei leoli ar y Promenâd yn Llandrillo yn Rhos i ddenu ymwelwyr i ardal y dref, ac un newydd ar y Promenâd ym Mae Colwyn, ger y Pier / tanffordd. Cynigodd aelodau Hen Golwyn i ofyn i'r trigolion am y man(nau) mwyaf addas, a chytunwyd y buasant yn adrodd yn ôl i'r Clerc. Cyfeiriodd y Clerc y gallai'r refeniw hysbysebu gan fusnesau lleol helpu i dalu am y gwaith o gynnal a chadw yn y dyfodol.

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc parhau gyda'i thrafodaethau gyda Gwil / DYCHMYGWCH a cheisio paratoi rhestr o fannau addas i gael eu hystyried am hysbysfyrddau digidol er mwyn cael prisiau manwl ag i archwilio'r opsiynau i gyllido.

c) Cofnod 328/20 - Sw Mynydd Cymru:

Cyflwynodd y Clerc ymateb a dderbyniwyd oddi wrth y Sw a Phrosiect Dychmygwch ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

ch) Cofnod 332/20(e) - Ymgynghoriad cyn Cyflwyno Cais Cynllunio, Ffordd Bay View

Cyflwynodd y Clerc copi o'r ymateb a anfonwyd at y datblygwr ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

361/20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):

- a) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig dros dro ar gyfer Ffordd Canning i Rodfa Victoria ar 31/5/21 (Gwaith BT).
- b) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig dros dro ar gyfer Old Highway, Mochdre o 24/5 – 26/5/21 (Gwaith Goleuo Stryd)

362/20 Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru:

- a) Cyflwynodd y Clerc cofnodion y Cyfarfod Chwarterol a gynhaliwyd ar 23/4/21 ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

- b) Cyflwynodd y Clerc adroddiad am fwriad Rheilffyrdd Arfordir Gogledd Cymru - Dementia Cyfeillgar, ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau. Fe nodwyd hefyd gan yr Aelodau, bod Gorsaf Rheilffordd Bae Colwyn yn Dementia Cyfeillgar.
- c) Cyflwynodd y Clerc copïau o'r Archwiliad Trenau a gwblhawyd ar gyfer Gorsaf Bae Colwyn, ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau..

363/20 Ffonau Talu BT:

Cyflwynodd y Clerc ebost a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy ynglŷn â symud ciosgau nad oedd llawer o ddefnydd arnynt yn ein hardal. Fe ddynodwyd bod pedwar ciosg yn cael eu tanddefnyddio. Roedd yr Aelodau o'r farn, oherwydd resymau diogelwch, y dylid cadw'r ciosgau ar y promenâd yn Llandrillo yn Rhos a Bae Colwyn.

Penderfynwyd ysgrifennu at GBS Conwy i ofyn i'r ciosgau ar y ddau bromenâd cael eu cadw, am resymau diogelwch / argyfwng.

364/20 Cynnig am Enwi Stryd:

Cyflwynodd y Clerc cynnig am enw ar stryd. Fe dybiwyd mai er gwybodaeth yn unig y defnyddiwyd enwau dwyieithog ac mai polisi CBS Conwy oedd defnyddio'r enw Cymraeg. Dywedodd y Clerc y byddai'n holi beth yw polisi CBS Conwy i weld os oes gennym unrhyw ddewis yn y defnydd o enwau dwyieithog neu ddefnyddio'r Gymraeg yn unig.

Penderfynwyd bod y Clerc i gysylltu â ChBS Conwy i ofyn am ei pholisi ynglŷn ag Enwi Strydoedd.

365/20 Polisi Trwyddedu drafft:

Cyflwynodd y Clerc Polisi Trwyddedu drafft CBS Conwy ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

366/20 Prosiect DYCHMYGU:

Cyflwynodd y Clerc cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd ar 20/4/2021, ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

367/20 Coed Poplys ger y Cae Rygbi:

Cyflwynodd y Clerc ebost oddi wrth GBS Conwy yn rhoi manylion am y gwaith oedd yn mynd ymlaen ar y safle ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau..

368/20 Chwarae Cymru – Canolbwyntio ar Chwarae:

Cyflwynodd y Clerc y daflen newyddion diweddaraf ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

369/20 Cynllunio:

a) Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b) Cyflwynodd y Clerc y Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy am y cyfnod o 22/3/2021 hyd at 18/4/2021 ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau..

c) Rhybudd o Apêl Cynllunio:

Cyflwynodd y Clerc y Rhybudd o Apêl ar gyfer y tir ger 30 Ffordd Llanrwst ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

370/20 Pleidlais o Ddiolch:

Estynnwyd pleidlais o ddiolch gan yr Aelodau i'r Cynghorydd Chris Brockley am yr holl waith a wnaed ganddo fel Cadeirydd yn y ddwy flynedd diwethaf..

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm

..... Cadeirydd